



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru ar y pŵer i hybu neu wella Lles Economaid, Cymdeithasol neu Amgylcheddol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

Ebrill 2013



# CANLLAWIAU STATUDOL I AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU

## Y PŴER I HYBU NEU WELLA LLES ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL NEU AMGYLCHEDDOL O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

### Cynnwys

Rhif Tudalen

#### **Pennod 1: Cyflwyniad**

- |     |                       |   |
|-----|-----------------------|---|
| 1.1 | Cyflwyniad            | 1 |
| 1.2 | Beth yw ystyr "lles"? | 1 |

#### **Pennod 2: Pŵer i Hybu Lles**

- |     |   |   |
|-----|---|---|
| 2.1 | Sut mae'n gweithio                        | 2 |
| 2.2 | Pwy all ddefnyddio'r pŵer                 | 4 |
| 2.3 | At ba ddibenion y gellir defnyddio'r pŵer | 5 |
| 2.4 | Ffyrdd posibl o ddefnyddio'r pŵer         | 6 |
| 2.5 | Pwy ddylai gael budd o ddefnyddio'r pŵer  | 7 |

#### **Pennod 3: Camau diogelu**

- |     |   |   |
|-----|---|---|
| 3.1 | Cyfyngiadau o ran y pŵer i hybu lles    | 7 |
| 3.2 | Creu rheoliadau ac is-ddeddfau          | 8 |
| 3.3 | Canllawiau                              | 8 |
| 3.4 | Enghreifftiau o'r defnydd o'r pŵer lles | 8 |

## **PENNOD 1: CYFLWYNIAD**

### **1.1 Cyflwyniad**

i) Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru o dan Adran 3(5) o Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" drwy gydol y canllawiau hyn. Mae'r canllawiau statudol hyn yn berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghymru, sef cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, y rhoddwyd y pŵer hwn iddynt o dan y Ddeddf, a chynghorau cymuned y rhoddwyd y pŵer hwn iddynt o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

ii) Creodd y Ddeddf bŵer disgrisiwn y cyfeirir ato yn y canllawiau hyn fel "y pŵer lles" sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud unrhyw beth sy'n debygol, yn eu barn hwy, o hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu bobl yn yr ardal honno, ar yr amod nad oes deddfwriaeth arall yn cyfyngu ar eu gallu i wneud hynny. Daeth y pŵer i rym yng Nghymru ar 9 Ebrill 2011. Nod y canllawiau hyn yw sicrhau bod awdurdodau lleol a phartïon eraill â diddordeb yn gyfarwydd â chwmpas y pŵer ac annog y defnydd ohono.

iii) Mae awdurdodau lleol yn gyrff statudol sy'n gweithredu o fewn fframwaith statudol. Cyn i'r pŵer i hybu lles ddod i rym, ni allai awdurdodau lleol ond gwneud y pethau hynny yr oedd pŵerau, dyletswyddau a swyddogaethau statudol penodol yn eu grymuso i'w gwneud. Roedd hyn yn aml yn creu ansicrwydd o ran graddau'r pŵer 'galluogi' a oedd gan awdurdodau lleol. Felly, mae cyflwyno'r pŵer lles yn rhoi pŵer disgrisiwn eang i awdurdodau lleol ddatblygu eu rôl arweinyddiaeth gymunedol ymhellach a darparu gwasanaethau gwell a mwy ymatebol.

### **1.2 Beth yw ystyr "lles"**

i) Gall awdurdodau lleol unigol bennu'r mathau o weithgareddau a fydd yn hybu neu'n gwella lles eu hardal. Ni ddiffinnir y term "lles" yn uniongyrchol yn y Ddeddf nac yn y canllawiau hyn gan fod gan awdurdodau lleol gwahanol safbwyntiau gwahanol am y mathau o weithgareddau a fydd yn hybu neu'n gwella lles eu hardal. Dylai camau gweithredu a gymerir yn unol â'r pŵer lles gael eu llywio gan safbwyntiau pobl a chymunedau'r ardal ac ymateb i'r safbwyntiau hynny.

ii) Bydd lles ardal a'r bobl yn yr ardal yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Yn aml, ni fydd y ffactorau hyn o dan reolaeth na dylanwad uniongyrchol yr awdurdod lleol na chyrff cyhoeddus eraill, er enghraifft, rhai materion cenedlaethol neu fyd-eang. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu beth sydd ei angen i hybu lles, a gallant ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer lles cyffredinol eu hardal sy'n ymateb yn uniongyrchol i faterion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

iii) Gall y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at hybu neu wella lles gynnwys y canlynol:

- Ffactorau economaidd megis pa un a oes swyddi addas o ansawdd uchel ar gael, mesurau i annog busnesau bach lleol, cysylltiadau trafndiaeth effeithlon ac effeithiol, dysgu gydol oes, hyfforddiant a datblygu sgiliau, y ddarpariaeth o ran seilwaith a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd ac ati.
- Ffactorau cymdeithasol megis hyrwyddo tai fforddiadwy o ansawdd da; cymunedau diogel; annog y sector gwirfoddol; diwallu anghenion plant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed; mynediad i'r celfyddydau neu gyfleoedd hamdden; mynediad i addysg ac ati.
- Ffactorau sy'n gysylltiedig ag iechyd megis hybu iechyd corfforol, cymdeithasol a meddwl da a datblygu a hyrwyddo polisiau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd, yn arbennig ar anghydraddoldebau iechyd.
- Ffactorau amgylcheddol megis pa un a oes aer glân, dŵr glân, strydoedd glân, ansawdd yr amgylchedd adeiledig, cael gwared ar wrthrychau yr ystyrir eu bod yn beryglus i iechyd, cael gwared ar enghreifftiau o graffiti sy'n anharddu neu'n sarhaus oddi ar adeiladau, diogelu cymunedau yn erbyn y bygythiad sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, rhyddid rhag risg uchel o lifogydd, gwella a hyrwyddo bioamrywiaeth a'r gallu i ymgysylltu â byd natur.
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy; mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio hyn fel rhywbeth sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan wella ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol, mewn ffyrdd sy'n:
  - hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
  - gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r byd a diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.

## **PENNOD 2: PŴER I HYBU LLES**

### **2.1 Sut mae'n gweithio**

i) Mae angen sicrhau bod gan awdurdodau lleol y pwerau statudol angenrheidiol i'w galluogi i ddiwallu anghenion y cymunedau a wasanaethir ganddynt yn llawn. Mae'r pŵer lles yn galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu rôl ehangach, mwy arloesol a gall annog awdurdodau lleol, y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector i weithio mewn partneriaethau agosach er mwyn diwallu anghenion eu cymuned yn well. Rhaid nodi bod y pŵer lles yn eang ei gwmpas a'i fod yn galluogi awdurdodau lleol i wneud unrhyw beth sy'n debygol, yn eu barn hwy, o hybu neu wella lles eu hardal a/neu bobl yn yr ardal honno. Mae'r pŵer lles yn galluogi awdurdod lleol, er enghraifft, i ymgymryd â'r camau gweithredu canlynol fel y nodir yn adran 2(4) y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys mynd i gostau, darparu staff, nwyddau neu wasanaethau i unrhyw unigolyn, sefydlu trefniant partneriaeth a chyflawni swyddogaethau cyrff eraill, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn.

ii) Mae cwmpas y pŵer lles yn golygu y gall awdurdodau lleol ei ystyried fel "pŵer dewis cyntaf" os bydd unrhyw amheuaeth ganddynt o ran pa un a fyddai pwerau sy'n bodoli eisoes yn eu galluogi i gymryd cam penodol neu ddarparu gwasanaeth penodol. Yn lle chwilio am bŵer penodol o fewn statud arall er mwyn cymryd cam penodol, anogir awdurdodau lleol i ystyried y pŵer lles i ddechrau wrth ddatblygu mesurau sy'n debygol o hybu a gwella lles. Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau nad yw deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gosod cyfyngiadau ar y defnydd o'r pŵer lles. Yn unol â hyn, ni ellir defnyddio'r pŵer lles i osgoi gwaharddiadau, amodau neu gyfyngiadau a nodir mewn deddfwriaeth ac ni ellir ei ddefnyddio i godi arian. Felly, os bydd darpariaeth ddeddfwriaethol arall yn cynnwys terfyn ariannol ni all awdurdod lleol ddefnyddio'r pŵer lles i osgoi'r gofyniad deddfwriaethol hwn.

iii) Er enghraifft, mae adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n gymwys i gynghorau cymuned yn cynnwys terfyn ariannol ar fynd i wariant (ac felly darparu arian). Byddai'r terfyn ariannol hwn yn adran 137(4) yn dal yn gymwys os byddai cyngor cymuned yn ceisio rhoi'r pŵer lles, sydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, ar waith.

iv) Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw ddefnydd o'r pŵer lles yn cydymffurfio â'r gyfraith yn fwy cyffredinol. Gall materion cyfreithiol perthnasol gynnwys y canlynol, er enghraifft:

- cyfraith contract;
- rhwymedigaethau cytuniadau, cyfarwyddbau a rheoliadau perthnasol yr UE sy'n berthnasol i drefniadau caffael a gweithgareddau sy'n cael cymorth gwladwriaethol;
- cyfraith hawliau dynol;
- deddfwriaeth bresennol y DU;
- pa un a yw'r mater yn destun adolygiad barnwrol posibl;
- egwyddorion cyfiawnder naturiol; a
- deddfwriaeth arall sy'n berthnasol i awdurdodau lleol.

*DS: Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.*

v) Mae awdurdodau lleol yn gwbl atebol am eu trefniadau ar gyfer gwarchod arian cyhoeddus. Mae'r pŵer lles yn amlygu'r ffaith bod y cyfyngiadau statudol ar allu awdurdod lleol i wario wedi'u llacio. Mae angen i benderfyniadau i neilltuo arian o dan y pŵer lles hwn fod yn dryloyw ac adlewyrchu arfer da wrth asesu opsiynau. Fel gyda swyddogaethau statudol eraill, bydd y defnydd o'r pŵer lles yn destun archwiliadau gan archwilwyr awdurdodau lleol a benodir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Os daw Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad bod awdurdod wedi torri'r gyfraith, neu y bu colled o ganlyniad i achos o esgeulustod neu gamymddygiad, gall ddewis cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd, a all arwain at gosbau yn erbyn y swyddogion neu'r aelodau sy'n gyfrifol.

vi) Wrth arfer y pŵer i hybu lles, dylai awdurdodau lleol ystyried y strategaeth gymunedol ar gyfer eu hardal, a ddylai fod yn rhan o'u cynlluniau integredig sengl, a'r canllawiau cysylltiedig "Cydamcanu – Cydymdrechu", a gyhoeddwyd yn 2012. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw ddefnydd posibl o'r pŵer lles fod yn seiliedig ar strategaeth o'r fath, ond lle mae'n effeithio ar bartneriaid o fewn cynllun integredig sengl neu'n codi eu disgwyliadau, dylai awdurdodau lleol ymgysylltu â hwy.

vii) Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd ystyried, maes o law, y defnydd a wneir o'r pŵer lles yng nghyd-destun unrhyw ddeddfwriaeth a lunir yn y dyfodol.

viii) Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd cydraddoldeb newydd ar y sector cyhoeddus. Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, sef cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned (ymysg eraill), roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erlid (ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf), datblygu cyfleoedd cyfartal a hefyd feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

## **2.2 Pwy all ddefnyddio'r pŵer?**

i) Mae adran 1(b) o'r Ddeddf yn darparu bod y pŵer i hybu lles yn berthnasol yng Nghymru i gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned. Rhoddwyd y pŵer hwn i gynghorau cymuned gan adran 126(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

ii) Nid yw'r pŵer ar gael i awdurdodau cyhoeddus eraill fel yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a Pharciau Cenedlaethol.

iii) Mae adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003") yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn yn galluogi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i fasnachu unrhyw rai o'u swyddogaethau arferol drwy gwmni. Yn unol ag Adran 95, gwnaed Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006 (OS 2006/979). At ddibenion y pŵer i fasnachu, mae'r pŵer lles yn un o swyddogaethau arferol cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (a elwir bellach yn 'awdurdodau gwella' yn hytrach nag 'awdurdodau gwerth gorau'). Ni all cyngor cymuned arfer y pŵer i fasnachu.

## **2.3 At ba ddibenion y gellir defnyddio'r pŵer?**

i) Rhydd Adran 2(1) o'r Ddeddf bŵer disgresiwn eang ei gwmpas i awdurdod lleol wneud unrhyw beth sy'n debygol, yn ei farn ef, o hybu neu wella lles amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ei ardal a phobl yn yr ardal honno, neu'r naill o'r ddau beth hynny. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw penderfynu pa un a fyddai unrhyw gam gweithredu penodol yn debygol o gyflawni hyn.

ii) Gall awdurdodau lleol ystyried sut y gellid defnyddio'r pŵer i roi gweithgareddau ar waith sy'n cyfrannu at y broses o gyflawni amcanion y strategaeth gymunedol, materion trawsbynciol eraill a blaenoriaethau a rennir, blaenoriaethau cenedlaethol a pholisïau cyffredinol, sy'n hybu ac yn gwella lles. Gallai'r rhain fod yn bolisïau neu'n rhaglenni a fydd yn cau bylchau mewn cyfleoedd neu ganlyniadau i grwpiau o bobl neu ardaloedd daearyddol difreintiedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Gallai'r defnyddiau gynnwys gweithgareddau yn ymwneud â'r canlynol:

- gwella'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol;
- hyrwyddo datblygu cynaliadwy;
- mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;
- gwella iechyd meddwl, cymdeithasol a chorfforol;
- mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd;
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig;
- lleihau anghydraddoldebau a hyrwyddo cydraddoldeb;
- annog cyfranogiad a gwaith meithrin gallu cymunedau;
- gwella a diogelu ansawdd yr amgylchedd lleol;
- hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol;
- diogelu, gwella a hyrwyddo bioamrywiaeth;
- hyrwyddo twristiaeth;
- hyrwyddo dwyieithrwydd;
- hyrwyddo datblygiad economaidd; neu
- gwella diogelwch cymunedol.

#### **2.4 Ffyrdd posibl o ddefnyddio'r pŵer - Adran 2(4)**

i) Noda Adran 2(4) enghreifftiau penodol o'r math o gamau gweithredu y gellir eu cymryd yn unol â'r pŵer lles. Mae'n nodi;

“Mae'r pŵer o dan isadran (1) yn cynnwys pŵer i awdurdod lleol -

- a) mynd i wariant,
- b) rhoi cymorth ariannol i unrhyw un,
- c) llunio trefniadau neu gytundebau ag unrhyw un,
- d) cydweithredu ag unrhyw un, neu hwyluso neu gydgysylltu ei weithgareddau,
- e) cyflawni unrhyw swyddogaethau ar ran unrhyw un,
- f) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw un.”

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r mathau o weithgareddau y gellid eu cyflawni o dan y pŵer lles, ac mae adran 2(6) yn nodi'n glir nad oes unrhyw beth yn isadran (4) neu (5) sy'n effeithio ar gyffredinolrwydd y pŵer o dan isadran (1).



ii) Mae is-baragraffau 2(4)(a) a (b) yn galluogi awdurdodau lleol i ystyried bod y pŵer i hybu lles yn bŵer gwario eang. Wrth gyflawni unrhyw weithgaredd sydd â'r nod o hybu neu wella lles, mae'r pŵer i hybu lles yn galluogi awdurdodau lleol i fynd i wariant, ac mae'n nodi'n benodol bod darparu cymorth ariannol (is-baragraff (b)) yn un ffordd o wneud hynny. Nid oes unrhyw amod neu gyfyngiad ar y swm o arian y gall awdurdod lleol ei wario yn Adran 2(1) y Ddeddf. Gall awdurdodau lleol ariannu gweithgareddau grwpiau a chyrff gwahanol, yn ogystal â buddsoddi mewn gweithgareddau o'r fath, os byddant o'r farn bod y gwariant hwn yn debygol o hybu neu wella lles eu hardal neu'r bobl ynddi. Gellir rhoi cymorth ariannol o'r fath drwy unrhyw ddull sy'n briodol ym marn yr awdurdodau lleol, yn cynnwys grantiau, benthyciadau, gwarantiau neu indemniadau fel elfennau o becynnau ariannol, neu gyfraniadau arian parod neu mewn da.

iii) Mae is-baragraffau (c) a (d) yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol lunio trefniadau neu gytundebau ag unrhyw un a'u galluogi i gydweithredu ag unrhyw un, neu hwyluso neu gydgysylltu ei weithgareddau at ddibenion lles. Gall awdurdodau lleol ystyried beth fyddai trefniadau neu gytundebau o'r fath a p'un a fyddent yn debygol o hybu lles. Enghraifft o hyn fyddai ffurfio, neu gymryd rhan mewn cwmni neu unrhyw ffurf arall ar gysylltiad neu gerbyd ar gyfer gweithio ar y cyd â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector.

iv) Mae is-baragraff (e) yn egluro bod y pŵer i hybu lles yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau sy'n rhan o gyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau eraill. Nid yw hyn yn trosglwyddo cyfrifoldeb statudol nac atebolrwydd am gyflawni'r swyddogaeth honno, ond mae'n rhoi mwy o gwmpas i awdurdodau lleol a'u partneriaid strategaeth gymunedol bennu'r ffordd orau o gyflawni eu swyddogaethau yng ngoleuni anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae is-baragraff (f) yn egluro bod awdurdodau lleol, yn ogystal â rhoi cymorth ariannol, yn gallu darparu mathau eraill o gymorth fel staff, nwyddau, gwasanaethau a llety. Hynny yw, gallant wneud cyfraniad o'r fath 'mewn da'.

## **2.5 Pwy ddylai gael budd o ddefnyddio'r pŵer? – Adran 2(2)**

i) Mae Adran 2(2) yn amodi y gellir arfer pŵer lles mewn perthynas â, neu er budd y canlynol:

- Ardal gyfan awdurdod lleol neu unrhyw ran ohoni; neu
- Pawb neu unrhyw un sy'n byw neu'n bresennol mewn ardal awdurdod lleol.

Drafftwyd y darpariaethau i fod mor hyblyg â phosibl. Mae Deddf Dehongli 1978 yn egluro bod y term 'person' yn cynnwys corff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol. Mae'n cynnwys felly awdurdodau lleol, yr heddlu, awdurdodau iechyd a pharciau cenedlaethol, busnesau, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol eraill sydd ynddynt eu hunain yn endidau cyfreithiol ar wahân. Mae hefyd yn cwmpasu pob unigolyn a grwpiau penodol o bobl mewn cymuned (yn cynnwys ffydd, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, merched, pobl hŷn, pobl ifanc a phlant, a phobl anabl). Mae 'personau sy'n bresennol' mewn ardal yn cynnwys grwpiau fel twristiaid, cymudwyr, teithwyr a phobl sy'n gweithio yn yr ardal.

ii) Mae Adran 2(5) hefyd yn caniatáu i awdurdod lleol ddefnyddio'r pŵer er budd neu mewn perthynas ag unrhyw berson neu ardal, sydd y tu allan i'w ardal os yw o'r farn bod gwneud hynny yn debygol o hybu neu wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ei ardal a/neu unrhyw bobl o fewn yr ardal honno. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i ddefnyddio'r pŵer lles mewn ffordd sy'n effeithio ar ardaloedd y tu hwnt i ffin yr awdurdod lleol, os bydd y weithred yn cyfrannu at les yn ardal yr awdurdod lleol ei hun.

iii) Wrth arfer y pŵer y tu allan i'w ardal, dylai awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod lleol ac unrhyw gyrff perthnasol eraill yn yr ardal(oedd) lle y bo'n cynnig cymryd camau gweithredu o dan y pŵer, er nad oes angen ymgynghori mewn modd anghymesur mewn perthynas â materion dibwys.

## **PENNOD 3: CAMAU DIOGELU**

### **3.1 Cyfyngiadau ar y pŵer i hybu lles**

i) Mae'r defnydd o'r pŵer lles yn amodol ar gamau diogelu penodol. Mae Adran 3 o'r Ddeddf yn nodi fframwaith o gamau diogelu o ran y defnydd o'r pŵer i hybu lles.

ii) Nid yw'r pŵer i hybu lles yn galluogi awdurdod lleol i wneud unrhyw beth y caiff ei atal rhag ei wneud gan ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth arall. Golyga hyn er bod y pŵer i hybu lles yn amodol ar bwerau eraill o'r fath sy'n bodoli mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, nid yw'n amodol ar gyfyngiadau y gellid eu hymhlygu neu eu casglu o'r ffordd y cafodd y pwerau hynny eu drafftio mewn deddfwriaeth bresennol.

iii) Ni ddylid arfer y pŵer lles mewn unrhyw ffordd sy'n dyblygu, mewn modd afresymol, swyddogaethau unrhyw gorff, a dylid bod yn ofalus i atal unrhyw achos o ddyblygu, mewn modd afresymol, weithgaredd sy'n rhan o gymhwysedd statudol corff cyhoeddus arall.

iv) Rhydd Adran 3(2) o'r Ddeddf waharddiad cyffredinol ar awdurdodau lleol gan ddefnyddio pŵer lles fel modd i godi arian. Mae'r amod hwn yn diogelu awdurdodau lleol ac arian cyhoeddus drwy geisio sicrhau ar achlysuron pan fydd yn rhaid i awdurdod lleol sicrhau arian cyn y gall fynd ar drywydd amcanion lles, mai dim ond drwy ffynonellau incwm presenol y gall wneud hynny. Effaith y ddarpariaeth hon yw atal awdurdodau lleol rhag defnyddio'r pŵer lles yn adran 2(1) yn bennaf i godi arian. Lle bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r pŵer lles at ddiben gwahanol, ond yn cael incwm o ganlyniad iddo, nid yw hynny, ym marn Gweinidogion Cymru, yn gyfystyr â chodi arian. Felly gallai awdurdod lleol roi cymorth ariannol i fenter leol sydd mewn trafferthion drwy brynu cyfranddaliadau i roi cyfalaf iddo. Os bydd y fenter yn llwyddo yn sgil buddsoddiad yr awdurdod lleol a bydd yr awdurdod lleol wedyn yn cael incwm o'i gyfranddaliadau drwy ddifidend, nid yw hyn yn gyfystyr â 'chodi arian' o fewn yr ystyr yn adran 3(2), ym marn Gweinidogion Cymru. At hynny, nid yw'r camau canlynol yn gyfystyr â 'chodi arian' os yw'r awdurdod yn cael incwm achlysurol mewn perthynas â hwy, ac nad hynny yw prif ddiben eu defnydd o'r pŵer yn adran 2(2):

- benthycu arian a chodi llog;
- cael nawdd ar y cyd ar gyfer prosiect partneriaeth;

- cael indemniad gan sefydliad am gostau y gellir mynd iddynt;
- cael incwm refeniw gan ymddiriedolaeth.

v) Er nad yw'r pŵer lles ynddo'i hun yn caniatáu codi tâl, gall awdurdodau lleol gael cyfraniadau ar sail wirfoddol gan sefydliadau partner am fentrau sydd, er enghraifft, yn gwella'r amgylchedd, addysg neu gyfleusterau hyfforddiant mewn ardal. Nid ystyrid bod cyfraniadau gwirfoddol neu adennill costau o'r fath yn enghreifftiau o 'godi arian'.

vi) Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn un gynhwysfawr. Pan fydd awdurdodau lleol yn ystyried y defnydd o'r pŵer lles, mae'n rhaid iddynt hefyd ystyried eu dyletswydd ymddiriedol i dalwyr y dreth gyngor.

### **3.2 Creu rheoliadau ac is-ddeddfau**

i) Mae'r pŵer lles yn un sy'n galluogi, yn hytrach na rheoleiddio. Nid oes unrhyw ddarpariaethau statudol yn adrannau 2 neu 3 a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i orfodi unrhyw reoliadau a wnaed o dan y pŵer lles. Mae'r hepgoriad hwn yn fwriadol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid defnyddio'r pŵer lles i gymryd camau cadarnhaol sy'n hybu lles cymunedol. Gellid, wrth gwrs, ddefnyddio'r pŵer lles ar y cyd â darpariaethau rheoleiddio presennol (y mae llawer ohonynt yn galluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol neu amgylcheddol fel niwsans sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglon iechyd yr amgylchedd).

ii) Ni ellir defnyddio'r pŵer lles i greu is-ddeddfau ar gyfer rheoleiddio ymddygiad, gan fod angen darpariaeth alluogi ar gyfer hyn. Felly, dylai awdurdodau lleol barhau i ddibynnu ar eu hystod eang bresennol o bwerau i greu is-ddeddfau, yn arbennig Deddf Is-Ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

### **3.3 Canllawiau**

(i) Mae Adran 3(5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru am y defnydd o'r pŵer cyn defnyddio'r pŵer. Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli canllawiau o'r fath.

(ii) Ni all Llywodraeth Cymru roi cyngor i awdurdodau lleol ar ba un a yw unrhyw ddefnydd arfaethedig o'r pŵer hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Dylai awdurdod lleol gymryd ei gyngor cyfreithiol ei hun ac ystyried rhannu ei arbenigedd neu fanteisio ar arbenigedd sefydliadau megis Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu cefnogaeth a chymorth.

### **3.4 Enghreifftiau o'r defnydd o'r Pŵer Lles**

(i) Ledled Cymru a Lloegr mae rhai enghreifftiau amlwg o'r defnydd o'r pŵer lles. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Cyngorau Lleol wedi cyhoeddi rhai enghreifftiau o'r defnydd o'r pŵer yn ei llyfryn 'Localism in Practice 3 (2011)' y gellir ei weld ar ei gwefan drwy'r ddolen ganlynol:

[http://www.nalc.gov.uk/Publications/Booklets\\_and\\_Resources.aspx](http://www.nalc.gov.uk/Publications/Booklets_and_Resources.aspx)